



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADOLYGIAD COMISIYNYDD PLANT CYMRU O SUT MAE
LLYWODRAETH CYMRU YN ARFER EI SWYDDOGAETHAU.**

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADOLYGIAD COMISIYNYDD PLANT CYMRU O SUT MAE LLYWODRAETH CYMRU YN ARFER EI SWYDDOGAETHAU.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu Ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o sut mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau

Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: WELLBEINGshare@gov.wales



LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/adolygiad-comisiynydd-plant-cymru-o-ymarfer-llywodraeth-cymru-ou-swyddogaethau-ymateb-y-llywodraeth>

OGL

Digital ISBN 978-1-80082-974-9

© Crown copyright March 2016

WG WG42303.

Cyflwyniad

Ar 25 Chwefror 2021, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ei hadroddiad ar ei hadolygiad o sut mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â dau fater polisi sy'n ymwneud ag addysg, yn unol ag Adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000 – yn benodol addysg ddewisol yn y cartref, a rheoleiddio ysgolion annibynnol.

Argymhellion

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn 5 argymhelliad, wedi derbyn 3 argymhelliad mewn egwyddor ac wedi gwrthod 2 argymhelliad.

Argymhellion polisi

Rhaid i Lywodraeth bresennol Cymru fyfyrion ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn a chyflwyno ymateb cyhoeddus, ysgrifenedig cyn i'r Senedd gael ei diddymu ym mis Ebrill 2021. Rhaid i'r ymateb hwnnw nodi pa gamau sy'n ofynnol i gyflawni'r newidiadau cyfreithiol angenrheidiol i ddiogelu hawliau plant wrth gael eu haddysgu gartref ac mewn lleoliadau ysgol annibynnol. Yn wyneb y pandemig a'r pwysau ar adnoddau cyfreithiol y Llywodraeth, dylai'r Llywodraeth gaffael cyngor cyfreithiol allanol os bydd angen i gyflawni'r argymhelliad hwn.	Derbyn
---	--------

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r datganiad hwn yn cadarnhau ymrwymiad y Llywodraeth bresennol i gynnal hawliau plant waeth ble y cânt eu haddysgu. Fodd bynnag, ni all y Llywodraeth ymrwmo i wneud gwaith gan mai mater i'r Llywodraeth newydd fydd blaenoriaethau yn y dyfodol.

Dyhead Llywodraeth Cymru fyddai newid deddfwriaeth i gryfhau mesurau diogelu mewn lleoliadau ysgolion annibynnol, gan gynnwys mewn perthynas â chofrestru staff gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Fodd bynnag, mater i'r Llywodraeth nesaf fydd penderfynu sut y caiff y polisi hwnnw a'r deddfwriaeth benodol honno eu datblygu, a sut y gellir sicrhau adnoddau cyfreithiol i gefnogi'r gwaith dan sylw.

Mae angen newid deddfwriaethol ar frys yn chweched Tymor y Senedd, a hynny o ran addysgu gartref ac ysgolion annibynnol. Dylid gweld hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth newydd ar sail yr adroddiad hwn. <ul style="list-style-type: none">O ran addysgu gartref, ni ellir colli rhagor o gyfleoedd. Mae'r Adolygiad hwn yn dod i'r casgliad ei bod hi'n bryd cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol er mwyn osgoi'r maglau ynghylch nodi, gweld a siarad â phlant y mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymdrechu'n aflwyddiannus i fynd i'r afael â nhw ar hyd y Tymor	Derbyn mewn egwyddor
---	----------------------

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen diwygio'r fframwaith polisi a'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Addysg yn y Cartref ac mae'n credu bod y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Er na allwn ymrwymo ar ran y Llywodraeth nesaf, ein bwriad yw gweithredu'r diwygiadau a nodwyd gennym i'w cyflawni cyn dechrau'r pandemig.

<p>Byddwn yn ildio i gyngor cyfreithiol ynghylch a oes angen deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth i wneud y newidiadau angenrheidiol yng nghyswllt ysgolion annibynnol. Fodd bynnag, rhaid i'r</p> <p>Llywodraeth geisio diweddarau'r sefyllfa reoliadol yn sylweddol yng nghyswllt ysgolion annibynnol, a sicrhau bod athrawon wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae modd cyflawni'r nod cyntaf drwy is-ddeddfwriaeth, ond mae'n dal yn aneglur a oes angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn i staff ysgolion annibynnol gofrestru gyda'r Cyngor.</p> <p>O ganlyniad, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau eglurhad ynghylch y sefyllfa gyfreithiol fel mater o flaenoriaeth, er mwyn gallu dechrau gweithio cyn gynted â phosibl i ganfod y llwybr y mae rhaid ei ddilyn er mwyn gallu deddfu ynghylch y newidiadau hyn yn gynnar yn y chweched Tymor.</p>	Derbyn
---	--------

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr angen am ddiwygiadau sylfaenol i ddiweddarau'r system rheoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol. Nid yw Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn gweithredu ar eu pennau eu hunain, maent yn rhan o fframwaith ehangach o reoliadau, canllawiau a pholisïau sy'n gweithio ar y cyd i ddiogelu dysgwyr yn y lleoliadau hyn. Byddwn yn sicrhau ein bod yn creu system gadarn, ac wrth wneud hynny byddwn yn:

- cryfhau'r rheoliadau;
- diweddarau'r safonau ysgolion annibynnol;
- diweddarau'r fframwaith polisi ehangach i adlewyrchu'r newidiadau hyn a'r potensial ar gyfer cydgrynhai a diwygio canllawiau diwygiedig i ddarparu fframwaith cyfreithiol mwy cydlynol, gan egluro cyfrifoldebau ar gyfer ysgolion annibynnol

Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd diweddarau'r sefyllfa rheoleiddio mewn perthynas ag ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau bod

staff wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mater i'r Llywodraeth nesaf fydd penderfynu sut y caiff y polisi a'r ddeddfwriaeth honno eu datblygu. Bydd cwmpas y gofyniad i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, a'r effaith ar y Rheoliadau presennol, yn pennu'r drefn ddeddfwriaethol sydd ei hangen. Bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gwmpas y gofyniad newydd i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

<p>Mae angen cyflawni diweddariad gwirioneddol o'r canllawiau ar Adolygiadau Ymarfer Plant, yn unol â'r Adolygiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ei hun i roi sylw i'r materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Argaeledd hirdymor adroddiadau CPR gorffenedig; ➤ Rôl y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) gan gynnwys strwythurau atebolrwydd ar gyfer sicrhau bod argymhellion a dderbyniwyd yn cael eu gweithredu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol; ➤ Rôl Llywodraeth Cymru yn lledaenu dysgu yn genedlaethol ac yn gweithredu ar ganfyddiadau CPR sydd â chymhwysiad ehangach y tu hwnt i ardal y Bwrdd y maent yn deillio ohono. <p>Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu a phenderfynu ar y ffordd orau o reoleiddio ac arolygu ysgolion annibynnol. Mae hyn yn effeithio ar niferoedd bach o blant yng Nghymru, ond serch hynny, mae'n galw am gefnogaeth a chanllawiau penodol, wedi'u diweddarau, sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau unigol. Mae angen adnoddau ac arbenigedd digonol i sicrhau bod y sector hwn yn cael ei reoli a'i gefnogi'n briodol.</p>	<p>Derbyn</p>
---	---------------

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd angen diwygio fframweithiau arolygu Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn unol â'r diweddariadau a wnawn i'r safonau ysgolion annibynnol. Gan mai ein bwriad yw cryfhau'r safonau hyn, bydd hyn yn golygu y gellir diweddarau fframweithiau arolygu Estyn a'r Arolygiaeth Gofal i adlewyrchu'r newidiadau yn y safonau ac unrhyw ofynion newydd a/neu ddisgwyliadau newydd mewn canllawiau diwygiedig. Er mwyn gwneud y newidiadau hyn mewn pryd, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n harylogiaethau i sicrhau bod y system yn gadarn ac yn deg.

Mae mesurau eisoes ar waith i gefnogi'r gwaith o ledaenu'r hyn a ddysgir o Adolygiadau Ymarfer Plant. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y dylid cryfhau ymhellach y trefniadau i rannu'r hyn a ddysgir o Adolygiadau Ymarfer Plant ac adolygiadau eraill a gynhelir yng Nghymru. Dyma un o'r rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhaglen newid uchelgeisiol ar waith, sy'n ceisio mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion a godwyd yn adroddiad yr adolygiad, drwy gyflwyno proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i Gymru (SUSR). Mae'r gwaith o ddatblygu'r SUSR yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i

gael argymhellion union yr un fath o ddau adroddiad ar wahân a gynhaliwyd yn 2018, a oedd yn canolbwyntio ar broses ac effaith Adolygiadau Lladdiadau Trais Domestig yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys gwaith i sefydlu Ystorfa Diogelu Cymru a fydd yn gweithredu fel platfform archifol ar gyfer pob adolygiad diogelu o'r sector cyhoeddus a bydd yn creu proses sy'n ymwneud â dysgu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi cyllid i ddatblygu'r Ystorfa Diogelu i'r cam nesaf. Golyga hyn y bydd modd i'r Ystorfa Diogelu symud o statws prototeip i ddarpariaeth weithredol yn ddiweddarach eleni. Un o argymhellion yr adolygiad gwreiddiol a arweiniodd at ddatblygu'r SUSR oedd creu Bwrdd Gweinidogol sy'n darparu proses i uwchgyfeirio materion anarferol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau posibl i bolisi neu faterion sy'n cynnwys swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli, a hynny ar lefel ryngweinidogol er mwyn cefnogi, llywio a dylanwadu ar y broses a'r canlyniadau unigryw hyn. Mae hefyd yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a San Steffan yn gallu gweld y dysgu thematig o bob adolygiad a gynhelir i sicrhau bod cymunedau'n cael eu diogelu.

Rydym yn sefydlu Panel Dysgu Diogelu, a fydd yn monitro ac yn adolygu cynnydd ar argymhellion SUSR yng Nghymru ac yn helpu i ddileu'r rhwystrau sy'n atal rhag gweithredu'r argymhellion.

Bydd canllawiau newydd yn cael eu llunio i roi cyngor ar weithredu proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i Gymru, a fydd yn ategu deddfwriaeth, canllawiau a dyletswyddau sy'n bodoli eisoes mewn meysydd datganoledig a meysydd heb eu datganoli.

Disgwylir y bydd gwaith y prosiect hwn wedi'i gwblhau yn yr hydref, ond ni fydd yn cael ei roi ar waith yn llawn tan ddechrau 2022.

Arferion gwaith Llywodraeth Cymru

Mae'n eglur bod materion lle'r oedd portffolios diogelu ac addysg yn gorgyffwrdd wedi syrthio droeon rhwng y ddau dîm, a chanlyniad hynny yn y pen draw oedd diffyg unrhyw newid deddfwriaethol. O ganlyniad, rwy'n argymhell bod y Llywodraeth yn sefydlu tîm Diogelu mewn Addysg gyda mewnbwn a chyfrifoldebau trawsadrannol, gyda digon o adnoddau i fedru cyflawni eu holl swyddogaethau mewn modd amserol sy'n cadw plant yn ddiogel ac yn cynnal eu holl hawliau.	Derbyn
---	--------

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru dîm Cefnogi Cyflawniad a Diogelu mewn Addysg eisoes ar waith. Mae'r tîm hwn yn gyfrifol am drefniadau canllaw 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'. Mae'r tîm Diogelu ac Eirioli yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn gweithio'n agos gyda'r tîm

Addysg a chyda swyddogion eraill ar draws y Llywodraeth ar bolisi ac arferion diogelu.

Mae trefniadau trawslywodraethol ar waith hefyd i ymateb i faterion diogelu mewn Ysgolion Annibynnol ac ar unrhyw fater sy'n ymwneud â diogelu. Bydd hyn yn aml yn cynnwys swyddogion ar draws meysydd polisi sy'n gweithio gyda chyrrff perthnasol yr Arolygiaeth a phartneriaid diogelu allanol.

Mae Grŵp Diogelu trawslywodraethol Llywodraeth Cymru yn cyfarfod bob deufis, gydag aelodau ar draws meysydd polisi, i ddatblygu arferion cydweithio a chyfathrebu amserol ar faterion diogelu.

Fodd bynnag, os bydd y Llywodraeth nesaf yn penderfynu bwrw ymlaen â deddfwriaeth sylfaenol i ddatblygu ymhellach y fframwaith rheoleiddio a'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer addysg yn y cartref, bydd angen diwygio systemau presennol er mwyn sicrhau strwythurau atebolrwydd ffurfiol. Yn benodol, bydd angen cydberchnogaeth o'r ddeddfwriaeth ac mae'n debygol y bydd angen penodi Prif Berchennog Cyfrifol trawsadrannol yn ogystal ag adnoddau digonol ar gyfer tîm y bil i gwmpasu ystod a chwmpas y diwygiadau sydd eu hangen i lunio a chyflawni'r diwygiadau.

Dylai adroddiadau crynhoi ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi'n brydlon ac mae angen mwy o dryloywder o ran sut mae'r ymatebion wedi cael eu trin a'u pwysoli. Dylid ystyried pennu terfyn amser ar gyfer cyhoeddi crynodebau o'r fath. Os bydd oedi anochel wrth gadw at derfyn amser o'r fath, dylid nodi hynny'n ysgrifenedig ar dudalen ymgynghori'r Llywodraeth, gan nodi'r amserlen ddiwygiedig a gynigir ar gyfer datrys y materion hyn, yn hytrach na'i adael yn benagored.	Derbyn
---	--------

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dylid cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Yn dilyn ymgynghoriad 12 wythnos byddai'n rhesymol cyhoeddi crynodeb 6-12 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd, rwyf wedi nodi mewn tystiolaeth i Bwyllgorau ac ymgynghoriadau'r Llywodraeth fy mhryderon ynghylch y diffyg CRIA o safon sy'n cael eu llunio i lywio a gyrru penderfyniadau polisi. Yn lle hynny, mae CRIA yn cael eu cwblhau'n hwyr yn y broses, i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed eisoes, yn hytrach nag i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu datblygu i'r eithaf. Mewn rhai achosion ni chaiff CRIA ei gwblhau o gwbl. Mae llawer o ddogfennau'n nodi fy mhryderon yn y cyswllt hwn.	
---	--

<p>Ar sail yr Adolygiad hwn, nid wyf yn credu bod y Llywodraeth ar hyn o bryd yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol llawn o dan Fesur 2011. Mae'r diwygiadau arfaethedig i Gynllun Hawliau Plant 2014 yn gyfle delfrydol i wella a mireinio polisi a gweithdrefnau CRIA, ac i newid diwylliant ac arferion yn unol â hynny. Byddaf yn ymgorffori hyn yn fy ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad byw ar y Cynllun, ond hoffwn gyngori'r Llywodraeth i roi sylw pellach i hyn cyn i'r cyfnod ymgynghori hwnnw ddo i ben.</p>	
--	--

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er nad yw wedi'i lunio fel argymhelliad ffurfiol, nodwn y materion a godwyd gan y Comisiynydd Plant ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Fel sefydliad sy'n dysgu, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau dros y 12 mis diwethaf i wella proses Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ac, ers haf 2020 (wedi'i ôl-ddyddio i fis Ionawr 2020), cyhoeddir pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n cael ei gwblhau ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae Cynllun drafft Hawliau Plant 2021, sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd, yn adlewyrchu'r nod o welliant parhaus. Mae'r cynllun drafft yn cynnig datblygu llawlyfr i helpu holl swyddogion Llywodraeth Cymru i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd sylw dyledus. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i roi mwy o eglurder ynghylch y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Edrychwn ymlaen at gael adborth gan Gomisiynydd Plant Cymru ar y diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Hawliau Plant.

Yn ystod y pandemig Covid19, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn awyddus i sicrhau bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni a drafftiwyd Asesiad Effaith Integredig, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ar gyfer penderfyniadau a wnaed yn gynnar yn ystod y pandemig. Yn wahanol i'r Asesiad Effaith Integredig arferol, roedd hwn yn nodi effaith penderfyniadau sydd wedi'u gwneud, yn hytrach na chynigion polisi arfaethedig, i roi ystyriaeth dryloyw i'r camau gweithredu a'r camau lliniaru y bu rhaid i Lywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi'r ymateb brys i'r pandemig.

Cylich gorchwyl a phwerau deddfwriaethol CPC

<p>20 mlynedd yn ddiweddarach, mae angen i Lywodraeth Cymru adolygu deddfwriaeth Comisiynydd Plant Cymru a'i diweddarau yn unol â chanfyddiadau'r Adolygiad hwn ac adroddiad Pwyllgor PPIA y Senedd yn 2020 ar Hawliau Plant yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys edrych ar y canlynol:</p>	
---	--

- a) Pwerau'r Comisiynydd i gael gafael ar ddogfennau fel rhan o Adolygiad statudol;

Derbyn mewn

<p>b) Pwerau'r Comisiynydd mewn perthynas â lleoliadau preifat yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion annibynnol;</p> <p>c) Penodi i rôl y Comisiynydd a'i monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Paris ar gyfer sefydliadau hawliau dynol annibynnol.</p>	<p>egwyddor</p> <p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Gwrthod</p>
---	--

a) Mae dadansoddiad cychwynnol o natur a graddau pŵer y Comisiynydd Plant i gynnal adolygiad fel y nodir yn adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000 wedi'i gynnal yng ngoleuni'r materion a godwyd yn adroddiad yr adolygiad. Mae hyn wedi cynnwys rhoi ystyriaeth i hyd a lled pwerau'r Comisiynydd ar hyn o bryd i ddiogelu dogfennau wrth gynnal adolygiad o dan adran 72B.

Er bod cais y Comisiynydd am wybodaeth at ddibenion ei hadolygiad wedi'i drin fel cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, nid oedd hyn yn atal cwblhau adolygiad y Comisiynydd yn yr achos hwn.

Fodd bynnag, gellir cyfiawnhau rhoi ystyriaeth bellach – gan gynnwys trafod yn uniongyrchol â'r Comisiynydd Plant – i ddeall manteision unrhyw ddeddfwriaeth ychwanegol y byddai ei hangen.

b) Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen diwygio pwerau'r Comisiynydd Plant y tu hwnt i'r hyn sydd ganddi ar hyn o bryd mewn perthynas ag ysgolion annibynnol.

c) Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru statws corfforaeth undyn ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol. Yn 2014, penodwyd y Comisiynydd gan y Prif Weinidog, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored a oedd yn cynnwys Panel gyda chynrychiolaeth drawsbleidiol a phobl ifanc. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu'r Comisiynydd, mae'r Adroddiad Blynyddol (ar ôl cael ei ddarparu i'r Prif Weinidog) yn cael ei roi gerbron Senedd Cymru fel rhan o'i rôl mewn perthynas â chraffu ac atebolrwydd.

Mae'r Comisiynydd, fel eraill mewn bywyd cyhoeddus, yn atebol i'r cyhoedd drwy Bwyllgorau Pwnc a Phwyllgor Chyfrifon Cyhoeddus y Senedd.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod annibyniaeth y Comisiynydd Plant wedi'i rhwystro o ganlyniad i'r trefniadau presennol. Ar y sail hon, ni welwn unrhyw fanteision o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y Comisiynydd Plant a'i swyddfa i'r Senedd. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hynny.